

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/10



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cynnwys

1. Cyflwyniad y cadeirydd	1	5 Staff	11
2. Trosolwg y Prif Weithredwr	2	5.1 Gweithio mewn partneriaeth	11
3. Sefydlu corff newydd	3	5.2 Cyfathrebu	11
3.1 Cefndir	3	5.3 Salwch	11
3.2 Cyfnod cysgodol	3	6 Adolygiad gweithredol ac ariannol	12
3.3 Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru	3	6.1 Creu'r Cysylltiadau	14
3.4 Pwyllgorau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru	4	6.2 Crynodeb o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y cyfnod chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010	15
3.4.1 Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth	4	7 Adroddiad tâl	20
3.4.2 Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	4	7.1 Datganiad ar Gydydffurfio â Chyflogau Rheolwyr y GIG	20
3.4.3 Y Pwyllgor Archwilio	4	7.2 Taliadau Yswiriant Indemniad Proffesiynol	20
3.5 Hyrwyddwyr	4	7.3 Bargeinio'n Lleol ar Gyflogau	20
3.6 Cynllunio	5	7.4 Hawliau cyflog a phensiwn uwch gyflogeion	22
3.7 Rhaglen bontio	5	7.5 Buddiannau Pensiwn	23
3.8 Enwi a brandio	5	8 Adroddiad archwilydd cyffredinol cymru i lywodraeth cynulliad cymru ar y datganiadau ariannol cryno	24
3.9 Cyfeiriad strategol	5	9 Cysylltiadau	24
3.10 Datblygu polisiau	5		
3.11 Paratoi ar gyfer argyfwng	5		
3.12 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	6		
3.13 Cynllun Iaith Gymraeg	6		
3.14 Adeiladau	6		
3.15 Cwynion	6		
4 Blwyddyn o lwyddiannau a chyflawniadau	7		
4.1 Sgrinio	7		
4.2 Diogelu iechyd	7		
4.3 Gwella iechyd	8		
4.4 Ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol	9		
4.5 Cudd-wybodaeth iechyd	10		
4.6 Gwasanaethau eraill	10		

Nodyn

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 1 Hydref 2009, hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2009 ac a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010.

Er mwyn gwneud yr adroddiad blynyddol hwn yn haws i'w ddeall, mae'r naratif yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn lawn, yn cynnwys y chwe mis cyntaf pan oedd y cyfrifoldeb dros wasanaethau yn nwylo Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Canolfan Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r cyfrifon ariannol yn cwmpasu'r chwe mis rhwng 1 Hydref 2009 a 31 Mawrth 2010.

1. Cyflwyniad y cadeirydd



Mae'n fraint cyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf lechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaeth y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ynghylch sefydlu lechyd Cyhoeddus Cymru, a'm penodiad innau fel cadeirydd y sefydliad, fis Mehefin 2009. Roedd hyn yn benllanw mwy na dwy flynedd o waith adolygu ac ymgynghori ynghylch y ffordd y dylid darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Roedd hefyd yn ddechrau llawer o waith i roi lechyd Cyhoeddus Cymru ar sylfaen gadarn o'r cychwyn.

Erbyn dechrau mis Hydref, roedd pum cyfarwyddwr anweithredol a phrif weithredwr wedi ymuno â mi ar y Bwrdd yn dilyn prosesau recriwtio agored. Mae'r rhain yn benodiadau o'r radd flaenaf ac yn bobl sy'n dod ag ystod o sgiliau, profiadau a phersbectif nodedig i faes iechyd y cyhoedd.

Cafodd ein misoedd cyntaf, o anghenraid, eu treulio'n rhoi'r trefniadau llywodraethu hanfodol ar waith.

Fodd bynnag, fel Bwrdd, dechreuom gynnal trafodaethau pwysig ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad a'r cyfraniadau allweddol y gallwn eu gneud i iechyd yng Nghymru.

Er bod pobl yng Nghymru yn byw'n hwy a bod llawer o'r dangosyddion ar gyfer iechyd da yn gwella, mae bwloch cynyddol rhwng y rhai a chanddynt iechyd da a'r rhai a chanddynt iechyd gwael. Ac mae cysylltiad cryf rhwng yr anghydraddoldeb hwn a statws cymdeithasol ac economaidd pobl.

Fel cymdeithas, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn. Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru ran allweddol i'w chwarae i sicrhau ein bod yn gwneud hynny. Ni fydd yn hawdd. Pe bai'n hawdd, byddai wedi cael ei wneud eisoes. Fodd bynnag, gyda'n staff tra medrus a phrofiadol yn gweithio o fewn system sefydliadol lle mae gennym ddylanwad ar bob lefel, mae gennym gyfle y mae'n rhaid i ni fanteisio i'r eithaf arno.

Yn bersonol, rwyf eisoes wedi cael cymorth hynod broffesiynol gan staff ar waith y cefais fy nghomisiynu i'w wneud gan Weinidogion. Rhaid i mi gydnabod y cymorth rhagorol a ddarparwyd gan y Bwrdd yn ogystal â'i ymrwymiad. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'n Prif Weithredwr, Bob Hudson, a'i ddim am eu hymrwymiad a'u sgiliau wrth sefydlu lechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad newydd a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon drwy gydol y cyfnod hwn o newid.

Dim ond megis dechrau mae'r daith. Mae llawer o heriau o'n blaenau. Ond gyda'n gilydd, fel lechyd Cyhoeddus Cymru, gallwn wneud gwahaniaeth. Mae'n amser cyffrous.

Yr Athro Syr Mansel Aylward
CB MD FFPM FFOM FRCP HonFFPH
Cadeirydd, lechyd Cyhoeddus Cymru

2. Trosolwg y Prif Weithredwr



Ers i mi gael fy mhenodi'n brif weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, rwyf wedi gweld llawer o waith nodedig y mae llawer ohono yn newydd i mi er gwaethaf y ffaith bod gennyf bron 30 mlynedd o brofiad yn GIG Cymru.

Drwy ein sefydliad, gall Cymru fanteisio ar arbenigedd a phrofiad gwasanaeth iechyd y cyhoedd arbenigol ac integredig sy'n gallu sicrhau gwelliannau gwirioneddol i iechyd ei phoblogaeth.

Mae'r rhain yn amseroedd heriol i'r rhai ohonom yn y sector cyhoeddus. Yn y blynyddoedd i ddod, efallai y bydd gofyn i ni ddarparu gwasanaethau o safon uwch i'r rhai mewn angen ond ar gyllideb llawer llai.

Mae hon yn her arbennig i iechyd y cyhoedd. Beth allwn ni ei wneud i wella iechyd a lles y boblogaeth er mwyn sicrhau nad oes angen gwasanaethau iechyd ar bobl? Beth allwn ni ei wneud i wella ansawdd gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithiol yn gynt? A sut y gallwn sicrhau nad oes angen gwasanaethau iechyd ar gleifion eto ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty?

Gall Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu'r GIG, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, asiantaethau eraill a'r cyhoedd i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn. A bydd yr atebion yn helpu pob un ohonom i ymdopi gyda'r gostyngiad mewn cyllid.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith hwn. Rydym yn ei wneud ochr yn ochr â sefydlu strwythur sefydliadol sy'n ein galluogi i godi i'r her yn y ffordd orau.

Mae'r gwaith strwythurol a sefydliadol yn cymryd amser os ydym am sicrhau ein bod yn deg gyda phawb sydd wedi ymuno â ni o wahanol sefydliadau.

Mae hefyd yn cymryd amser i greu perthynas gyda phrif randdeiliaid - yn Llywodraeth y Cynulliad, yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd. Mae cysylltiadau hollbwysig y mae angen i ni eu creu ac mae sicrhau cyd-ddealltwriaeth dda yn flaenoriaeth i ni.

Byddwn yn gwneud hyn fel system iechyd y cyhoedd integredig. Gyda Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar bob bwrdd iechyd, mae iechyd y cyhoedd ar frig agenda pawb.

Mae'r gwasanaethau a'r profiad y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u hetifeddu wedi creu argraff fawr arnaf. Mae'r cyfoeth hwn o brofiad, gwybodaeth a sgiliau yn sylfaen ragorol ar gyfer datblygu ein sefydliad.

Bob Hudson

Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

3. Sefydlu corff newydd

3.1 Cefndir

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 1 Hydref 2009 - un o dair Ymddiriedolaeth GIG arbenigol a saith bwrdd iechyd sy'n rhan o GIG Cymru yn dilyn yr ailstrwythuro – gan ddod â'r canlynol ynghyd:

- ▶ Canolfan Iechyd Cymru;
- ▶ y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaledau Cynhenid (CARIS) a arferai gael ei redeg gan Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Bro Morgannwg;
- ▶ Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICC), Gwasanaethau Sgrinio Cymru ac Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU) – y cyfan yn arfer cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o system iechyd y cyhoedd integredig lle y mae pob bwrdd iechyd yn cyflogi Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd.

3.2 Cyfnod cysgodol

Nid oedd amser yn caniatáu ar gyfer penodi bwrdd cysgodol cyn i'r corff newydd gael ei sefydlu felly cymerodd y Darpar Gadeirydd gamau gweithredol i sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol llawn a gweithredu'n foddhaol o 1 Hydref ymlaen.

Er mwyn cynorthwyo'r Darpar Gadeirydd, sefydlwyd Bwrdd Cyflawni a Rheoli Newid. Rhoddodd gyngor ac arweiniad i'r Darpar Gadeirydd gan helpu i roi'r trefniadau pontio ar waith.

Cafodd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod cysgodol eu cadarnhau gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei gyfarfod cyntaf ar 26 Hydref 2009.

3.3 Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru 12 o aelodau, sef saith Cyfarwyddwr Anweithredol yn cynnwys y Cadeirydd a phum Cyfarwyddwr Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff gwneud penderfyniadau corfforaethol, gyda'r Cyfarwyddwr Anweithredol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau llawn a chyfartal sy'n rhannu'r cyfrifoldeb corfforaethol dros y penderfyniadau a wneir. Yn benodol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb dros gyfeiriad strategol, fframwaith llywodraethu, diwylliant a datblygiad y sefydliad, datblygu perthynas gref gyda phrif randdeiliaid a phartneriaid a chyflawni nodau ac amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb dros gyflawni swyddogaethau corfforaethol ac iechyd y cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn dilyn nifer o drafodaethau rhwng y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, ymgynghorwyd â'r staff ar bapur yn ymwneud â chyfrifoldebau'r tri chyfarwyddwr gweithredol na chânt eu pennu gan reoliadau. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cael:

- ▶ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd sy'n cwmpasu diogelu iechyd, sgrinio ac amddiffyn;
- ▶ Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd y Cyhoedd yn cwmpasu gwella iechyd, ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol, cudd-wybodaeth iechyd (yn cynnwys Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Cymru) a'r Athrofa;
- ▶ Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad.

3. Sefydlu corff newydd

Ar 31 Mawrth 2010, roedd aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn:

Cadeirydd	Yr Athro Syr Mansel Aylward CB
Cynrychiolydd y Trydydd Sector	Dr Carl Clowes
Cynrychiolydd Llywodraeth Leol	Dr Jo Farrar
Aelod Annibynnol	Yr Athro Simon Smail CBE
Aelod Annibynnol	John Spence
Cynrychiolydd Prifysgol	Yr Athro Gareth Williams
Cynrychiolydd Undeb Llafur	Gwag
Prif Weithredwr	Bob Hudson
Cyfarwyddwr Cyllid	Gwag
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd	Gwag
Cyfarwyddwr Datblygiad Iechyd y Cyhoedd	Gwag
Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad	Gwag

3.4 Pwyllgorau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

3.4.1 Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth

Etifeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â chyfraith a rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Bwrdd ar bob agwedd ar lywodraethu gwybodaeth yn cynnwys ansawdd a chywirdeb, diogelwch a diogled, mynediad i wybodaeth a'r defnydd priodol o'r wybodaeth honno. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gleifion a gwybodaeth bersonol. Mae'r pwyllgor

yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ymateb i geisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Hyd yma nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael unrhyw gwynion na cheisiadau am adolygiad nac unrhyw geisiadau am wybodaeth y mae wedi'i derbyn.

3.4.2 Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfarfod bob deufis ac mae'r Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Gweithredol a chanddo bortffolio sy'n cynnwys agweddau ar ansawdd a diogelwch gofal yn bresennol. Mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar bob agwedd ar sicrhau ansawdd a diogelwch gofal iechyd, yn cynnwys gweithgareddau y cyfeirir atynt yn draddodiadol fel gweithgaredd 'llywodraethu clinigol'.

3.4.3 Y Pwyllgor Archwilio

Mae Pwyllgor Archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gadeirio gan Dr Jo Farrar. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn sicrhau'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ac yn rhoi cyngor iddynt ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith i'w cefnogi i wneud penderfyniadau ac ymgymryd â'u dyletswyddau i sicrhau y caiff amcanion yr Ymddiriedolaeth eu cyflawni, yn unol â'r safonau llywodraeth dau a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru.

3.5 Hyrwyddwyr

Ar 31 Mawrth 2010 penodwyd yr Hyrwyddwyr Canlynol:

- Yr Athro Syr Mansel Aylward fel Hyrwyddwr ar gyfer Cyn-filwyr
- Yr Athro Simon Smail fel Hyrwyddwr ar gyfer Amddiffyn Plant

3. Sefydlu corff newydd

3.6 Cynllunio

Cynhyrchodd pob un o'r sefydliadau a ddaeth ynghyd i greu lechyd Cyhoeddus Cymru ddatganiad etifeddiaeth a oedd yn cynnwys asesiad manwl o'r gwaith a'r materion dan sylw ar 30 Medi 2009.

Etifeddodd lechyd Cyhoeddus Cymru nifer o wahanol drefniadau cynllunio ac adrodd gan y sefydliadau hyn. Oherwydd i'r sefydliad gael ei sefydlu hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, parhawyd â'r trefniadau hyn ar gyfer gweddill 2009/10.

3.7 Rhaglen bontio

Sefydlwyd rhaglen bontio gyda nifer o brosiectau'n ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu lechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad newydd cydlynus ac effeithiol.

3.8 Enwi a brandio

Pan gyhoeddwyd y byddai Ymddiriedolaeth GIG Newydd yn cael ei sefydlu, dywedodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai ei henw fyddai lechyd Cyhoeddus Cymru.

Ar ôl cynnwys y staff a rhanddeiliaid mewn trafodaeth ynghylch hunaniaeth y sefydliad, mabwysiadodd lechyd Cyhoeddus Cymru Strategaeth Enwi a Brandio a gafodd ei rhoi ar waith ddechrau mis Chwefror 2010.

Rhodddwyd y gorau i ddefnyddio Canolfan lechyd Cymru, GICC a Gwasanaethau Sgrinio Cymru fel enwau. Mabwysiadwyd lechyd Cyhoeddus Cymru fel brand ar gyfer yr holl wasanaethau yr oedd y sefydliad yn eu darparu i'r llywodraeth, i'r GIG ac i asiantaethau eraill. Cadwyd y brandiau ar wahân a sefydlwyd ar gyfer brandiau cyhoeddus penodol, fel Bron Brawf Cymru a Dim Smygu Cymru.

Cafodd y gwaith o weithredu'r strategaeth enwi a brandio ei gydgysylltu drwy nifer o systemau cyfathrebu newydd, yn cynnwys safle mewnrwyd ar gyfer y sefydliad cyfan, a fu o gymorth i gael mwy o effaith.

3.9 Cyfeiriad strategol

Cafodd y Bwrdd nifer o drafodaethau am gyfeiriad strategol lechyd Cyhoeddus Cymru, ei ddibenion, ei werthoedd a'i flaenoriaethau. Caiff y rhain eu datblygu drwy drafodaethau pellach gyda staff a rhanddeiliaid a byddant yn dod i ben fis Hydref 2010.

3.10 Datblygu polisiau

Sefydlwyd grŵp project polisiau i nodi'r polisiau, y gweithdrefnau a'r strategaethau a etifeddodd lechyd Cyhoeddus Cymru gan ei ragflaenwyr. Cyfarfu'r grŵp fel rhan o'r ffrwd waith Cymorth Corfforaethol o fewn Fframwaith Rhaglen Bontio lechyd Cyhoeddus Cymru.

Gorchwyl y grŵp oedd creu dulliau clir ar gyfer rheoli polisiau lechyd Cyhoeddus Cymru o'r cam drafftio/adolygu hyd y cam o'u rhoi ar waith.

3.11 Paratoi ar gyfer argyfwng

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn ymatebydd Categori 1 ac mae trefniadau ar waith sy'n cydymffurfio'n llwyr â dyletswyddau statudol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r GIG.

3. Sefydlu corff newydd

3.12 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi etifeddu polisiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Chanolfan Iechyd Cymru.

Mae Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi cael yr orchwyl o ddatblygu cynllun cydraddoldeb sengl.

3.13 Cynllun Iaith Gymraeg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ac wedi ymgynghori arno. Wrth ddatblygu'r cynllun, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru drafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac ymgynghorwyd â'r staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

3.14 Adeiladau

Mae adolygiad ar y gweill i edrych ar holl adeiladau Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn asesu eu haddasrwydd i waith y sefydliad a'u cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a deddfwriaeth arall. Bydd cynaliadwyedd amgylcheddol adeiladau'r sefydliad hefyd yn cael ei ystyried.

3.15 Cwynion

Mae'r perfformiad cyffredinol o ran cwynion ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 fel a ganlyn:

Cyfanswm y cwynion	60
Cyfanswm y cwynion ffurfiol	58
Cyfanswm y cwynion anffurfiol	2
Cyfanswm y cwynion a gyrhaeddodd yr ail gam	0
Cyfanswm y cwynion gan blant	0
Cyfanswm y cwynion gan ASau ac ACau	0

Nodir y perfformiad o ran y cwynion ffurfiol a ddaeth i law isod:

Nifer y cwynion ffurfiol	60
Cydnabuwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith	87%
Ymatebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith	87%
Datryswyd ar ôl 4 wythnos	13%
Cwynion yn parhau	0
Amser a gymerwyd i ymateb ar gyfartaledd	15 diwrnod

Cafodd pob cwyn ei datrys yn lleol ac roedd y broses yn cynnwys:

- ymddiheuriad ac esboniad yn y llythyr ymateb yn dilyn ymchwilio i'r cwynion;
- trafod profiadau'r achwynydd mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol, ar lefel uwch staff a chyda'r staff.
- gwahodd yr achwynwyr i drafod pryderon a chwestiynau gydag uwch staff priodol;
- darparu gwybodaeth briodol;
- cyflwyno adroddiadau chwarterol am gwynion i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Deilliodd y gwelliannau canlynol i wasanaethau o'r cwynion a ddaeth i law a'r ymchwiliadau dilynol:

- Trefnu i ddiweddarau hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gwneud profion ceg y groth
- Diweddarau hyfforddiant cyfathrebu i staff radiograffeg
- Newid llenyddiaeth sgrinio'r coluddion i ddangos sut y dylai'r cyfranogwyr labelu pecynnau profion.
- Prynu unedau symudol newydd i weithredu mamograffeg ddigidol a fydd yn cynnwys mynediad i'r anabl.

4. Blwyddyn o lwyddiannau a chyflawniadau

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau arbenigol – y cyfan gyda'r nod o ddiogelu a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

Mae'r bennod hon yn amlygu prif gyflawniadau'r gwasanaethau yn 2009/10.

4.1 Sgrinio

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu pedair rhaglen sgrinio'r boblogaeth ledled Cymru ac yn gosod safonau ar gyfer gwella sgrinio cyn geni.

Bron Brawf Cymru sydd â'r gyfradd uchaf yn y DU o ran darganfod canser anymledol (2.1 fesul 1,000 o bobl a gaiff eu sgrinio), y gyfradd uchaf o ran darganfod canser ymledol (7.2) a'r gyfradd uchaf ond un o ran darganfod achosion o ganser anymledol bach (3.8).



Yr Athro Syr Mansel Aylward, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dr Rose Fox, Dirprwy Gyfarwyddwr Sgrinio yn lansio uned symudol newydd Bron Brawf Cymru gyda mynediad i gadeiriau olwyn, ar y cyd ag un o ddefnyddwyr y gwasanaeth Sally Mitchell

Yn ogystal, mae gan y rhaglen y gyfradd uchaf yn y DU, ar y cyd ag un sefydliad arall, o ddiagnosis cyn llawdriniaeth – gwneir diagnosis o 97 y cant o achosion o ganser heb orfod gwneud llawdriniaeth – a'r amser aros isaf ond un rhwng cael asesiad a chael llawdriniaeth.

Llwyddodd Sgrinio Serffigol Cymru i ymdopi â'r cynnydd aruthrol mewn samplau o ganlyniad i salwch proffil uchel ac yna farwolaeth ffigur cyhoeddus yn sgîl canser serffigol.

Yn 2009/10, cwblhaodd y rhaglen y broses o ganoli labordai yn y De a'r Gogledd yn barod ar gyfer gwneud gwaith prosesu sytolog ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

Yn ystod blwyddyn gyntaf rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru gwahoddwyd 195,633 o bobl i ddychwelyd pecyn prawf yn y cartref. Dychwelwyd 58.5 y cant, sy'n uwch na'r hyn a welwyd yn y rowndiau cyntaf yn yr Alban a Lloegr. Yn sgîl y rhaglen canfuwyd 210 o achosion o ganser - tua dau o bob 1,000 o'r rhai a sgriniwyd.

Mae unedau Sgrinio Coluddion Cymru, yn cynnwys cyfleusterau a adeiladwyd o'r newydd yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, wedi cael eu rhoi ar waith.

4.2 Diogelu iechyd

Daeth manteision gwasanaeth iechyd y cyhoedd integredig i Gymru gyfan i'r amlwg yn ystod y pandemig fflw moch. Yn wahanol i bob rhanbarth yn Lloegr a'r gwledydd datganoledig eraill, nid oedd angen i Gymru ddatblygu Canolfannau Ymateb i'r Fflw, ac arbedodd hynny gryn dipyn o arian i'r GIG.

Hwylusodd y Tîm Iechyd y Cyhoedd Fferyllol fynediad i driniaeth gwrthfeirysol drwy fferyllfeydd gan ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol fferyllol perthnasol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y GIG, contractwyr annibynnol a phartneriaid gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dechnoleg y system profi fflw moch H1NI yng Nghaerdydd ac Abertawe a'i throsglwyddo. Bu'r cynnydd yn yr adnoddau labordy o gymorth o ran ymateb Cymru gyfan i'r pandemig.

4. Blwyddyn o lwyddiannau a chyflawniadau

Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr addysg a'r arweinyddiaeth ar gyfer y rhaglen frechu yng Nghymru hefyd.

Ar yr un pryd â'r ymateb i'r ffliw moch pan oedd yn ei anterth, llwyddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymdrin ag achosion mawr o'r frech goch ledled Cymru.

Mewn ymateb i achosion eraill, bu timau diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am olrhain cysylltiadau ar gyfer achosion TB yn Rhondda Cynon Taf ac achos mawr o gryptosporidiwm a oedd yn gysylltiedig â phwll nofio mewn canolfan hamdden ym Merthyr Tudful.

Yn dilyn cadarnhad gan y Gweinidog a'i hymrwymiad i Gynllun Gweithredu Hepatitis Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn bennaf cyfrifol am ddatblygu'r dystiolaeth a drafftio'r cynllun, sydd â'r rôl o arwain y gwaith o'i ddatblygu.

Mae Gwasanaeth Bwyd, Dŵr ac Amgylchedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cytuno gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol ar gostau cyffredin a system ddyrannu ar gyfer sbesimenau ledled Cymru. Rhagwelir y caiff hyn ei weithredu yn ystod 2010/11.

Yn ystod 2009/10 lanswyd y model Polisiâu Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.

Drwy ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid, gwnaethpwyd newidiadau a arweiniodd at weithio ar un safle yng Nghaerfyrddin, gan gau'r gwaith labordy yn Llanelli ond gwella amseroedd ymateb a chadernid y trefniadau ar alwad. Mae hyn yn ymgysylltu â'r broses moderneiddio patholeg.

Llwyddodd rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru o labordai microbioleg i gadw'r statws Achrediad Patholeg Clinigol

4.3 Gwella Iechyd

Ymysg prif gyflawniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes gwella Iechyd roedd darparu adroddiad pennu cwmpas manwl ar sail tystiolaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gwasanaeth sgrinio ac ymyriadau byr yn y gymuned i'r rhai sy'n yfed yn beryglus.

Cymerodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb dros wasanaeth Hybu Gwaith Cymru, a'i integreiddio'n llwyddiannus.

Mae Tîm Iechyd y Gweithlu wedi mynd y tu hwnt i'r targedau a osodwyd ar gyfer hybu'r Safon Iechyd Gorfforaethol a'r Wobr Iechyd Gweithlu Bach.

Llwyddodd Dim Smygu Cymru i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni addysgol i gynorthwyo gweithwyr gofal Iechyd a chymunedol i roi cyngor byr ar roi'r gorau i ysmegu i ysmygwyr ac annog pobl i atgyfeirio i'r gwasanaeth.

Datblygwyd rhaglen gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â meddygon teulu hefyd gan Dim Smygu Cymru. Gweithiodd y gwasanaeth gyda Chanolfan Ymchwil Meddygol Cymru i ddatblygu modiwl datblygiad proffesiynol parhaus ar roi'r gorau i ysmegu a gwblhawyd gan 500 o feddygon teulu.

Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru raglen ASSIST hefyd i roi cymorth cymheiriaid i blant i'w hatal rhag dechrau ysmegu, mewn 39 o ysgolion ledled Cymru.

Parhaodd Timau Lleol Iechyd y Cyhoedd ledled Cymru i weithio gyda byrddau Iechyd, awdurdodau lleol ac mewn partneriaethau lleol i wella Iechyd y boblogaeth.

Gofynnodd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio i gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Athro Syr Mansel Aylward, adolygu'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru.

4. Blwyddyn o lwyddiannau a chyflawniadau

4.4 Ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol

Rhoddodd staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gymorth i Lywodraeth Cynulliad Cymru, byrddau iechyd a Chomisiwn Iechyd Cymru drwy roi cyngor iddynt ar y cynlluniau pontio a'r blaenoriaethau ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Rhodddwyd cymorth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu'r Fframwaith Strategol Pum Mlynedd, ac ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn gofal strôc a rheoli syndrom blinder cronig.

Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bartner allweddol yn yr Ymgyrch 1000 o Fwydau a ddaeth i ben ar 21 Ebrill 2010, gan adrodd bod 852 o fywydau ychwanegol wedi cael eu hachub yn ystod deunaw mis cyntaf yr Ymgyrch a 29,000 o achosion o niwed wedi'u hatal yn ystod y deuddeng mis cyntaf.



I olynu'r Ymgyrch 1000 o Fwydau, datblygwyd y rhaglen 1000 o Fwydau a Mwy.

Cynhaliwyd treial o 'Academi Gwella Ansawdd' fis Mehefin 2009 a oedd yn darparu dysg a hyfforddiant ar draws grwpiau proffesiynol yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Gyfadran Gwella Gofal Iechyd 'Y daith hyd yn hyn' – adroddiad dwyieithog sy'n olrhain ei chynnydd a'i heffaith ar ofal iechyd yng Nghymru.

Lansiwyd y gyfres o seminarau 'Gwella Gofal Iechyd', gan ddod ag arbenigwyr rhyngwladol mewn diogelwch cleifion a gwella ansawdd ynghyd.

Rhodddwyd cyngor i Gomisiwn Iechyd Cymru ar sail y dystiolaeth ar gyfer nifer o wasanaethau arbenigol, ar ddatblygu polisiâu drafft, ac ar y cyfrifoldeb dros y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Yn lleol, rhodddwyd cyngor i gefnogi gwasanaethau gofal cymunedol a heb eu trefnu a gynlluniwyd gan y byrddau iechyd newydd, yn cynnwys cymorth dwys i ddau brosiect 90-niwrnod yn y Gogledd. Mae byrddau Iechyd hefyd wedi gofyn am gyngor ar gyfraniad iechyd y cyhoedd i bolisiau a gweithdrefnau blaenoriaethau lleol, ac wedi cael y cyngor hwnnw.

Cyfrannodd y Tîm Iechyd y Cyhoedd Fferyllol at asesu anghenion fferyllol, gan roi tystiolaeth i fyrdau iechyd yn seiliedig ar adolygiadau o lenyddiaeth a gwerthusiadau o wasanaethau i helpu i lywio penderfyniadau'n ymwneud â datblygiadau'r gwasanaeth fferyllol cymunedol e.e. rheoli pwysau, profion clamidia, rhoi'r gorau i ysmegu ac ymyriadau'n ymwneud ag alcohol.


Gwnaethpwyd cyfraniad sylweddol at yr agenda rheoli meddyginiaethau drwy aelodaeth meddyg ymgynghorol o'r Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, y Grŵp Meddyginiaethau Newydd a'r Grŵp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan, yn ogystal â chadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion Adroddiad Routledge.

Mae gwelliannau mawr yn cael eu gwneud i wasanaethau ar gyfer pobl a chanddynt anhwylderau bwyta ledled Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad drwy roi fframwaith a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith. Mae Cymru yn unigryw yn y DU o ran diffinio fframwaith clir ar gyfer y wlad gyfan sy'n cwmpasu anghenion corfforol a seiciatryddol pobl ag anhwylderau bwyta. Mae'n cwmpasu'r sbectwm cyfan, o nodi anhwylderau yn gynnar i ymyriadau arbenigol.

4. Blwyddyn o lwyddiannau a chyflawniadau

4.5 Cudd-wybodaeth iechyd

Lansiwyd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn swyddogol yn 2009/10 ac mae wedi cyhoeddi proffiliau demograffeg ar gyfer y byrddau iechyd newydd, yn ogystal â phroffiliau ffordd o fyw ac iechyd.



Cynhyrchodd y Gwasanaeth Ansawdd a Gwybodaeth Gofal Sylfaenol nifer o becynnau gwella ansawdd ar gyfer gofal sylfaenol, sy'n cefnogi mentrau cenedlaethol, fel yr Ymgyrch 1000 o Fywydau, fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol, gwasanaethau ehangach i feddygol teulu a chyflyrau cronig.

Cynhyrchodd dadansoddwyr gwybodaeth iechyd lechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad yn dwyn y teitl "Equity in the provision of coronary angiography and revascularisation in Wales".

Cwblhaodd Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru (WCISU) y gwaith o gofrestru nifer yr achosion o ganser ar gyfer y flwyddyn 2008 ym mis Tachwedd 2009, gan alluogi gwiriadau ansawdd a dilysiadau terfynol i gael eu gwneud cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar nifer yr achosion.

Mae WCISU hefyd yn ymwneud ag astudiaeth meincnodi ryngwladol a nifer o brosiectau ymchwil, archwilio a chydweithredol eraill.

4.6 Gwasanaethau eraill

Parhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau eraill yn cynnwys y Gwasanaeth Diogelu Plant, Rhwydweithiau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd y Cyhoedd Deintyddol, Datblygiad Proffesiynol a sefydliadol a chyngor ar lywodraethu.

Cafodd y gweithdrefnau a ddatblygwyd gan y Tîm Cynghori ar Ofal Meddygol Sylfaenol eu canmol mewn dogfennau yn Lloegr a oedd yn adolygu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli pryderon ynghylch perfformiad ymarferwyr cyffredinol.

Mae 85 y cant o bractisau meddygon teulu yng Nghymru wedi defnyddio'r Offeryn Hunanasesu Llywodraethu Clinigol a ddatblygwyd gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, gydag ychydig dros 40 y cant o bractisau wedi ei gwblhau a'i gyflwyno i'w ddadansoddi ac i gael adborth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu swyddogaethau Athrofa ac mae wedi bod yn rhan o nifer o drafodaethau i'w sefydlu'n fwy ffurfiol.

Gofynnodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Athro Syr Mansel Aylward adolygu trefniadau diogelu plant yn y GIG newydd yn dilyn yr ad-drefnu.

5. Staff



Mynychodd dros 220 o aelodau o staff gynhadledd staff gyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd fis Hydref 2009

Ar 1 Hydref 2009 etifeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru staff gan y tri sefydliad a'i rhagflaenodd. Ar 31 Mawrth 2010 roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru 1,238 o staff sy'n hafal i 1,014.59 o staff llawn amser.

5.1 Gweithio mewn partneriaeth

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth gyda chynrychiolwyr undebau llafur er mwyn datblygu cydweithio.

5.2 Cyfathrebu

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu nifer o fesurau i helpu cyfathrebu mewnol yn cynnwys safle mewnwyd, e-Fwletin wythnosol i'r staff a chylchgrawn chwarterol, Pawb, i ddathlu cyflawniadau'r staff. Cynhaliwyd cynhadledd staff fis Hydref 2009 i rannu arferion a gwaith ymchwil arloesol ar draws y sefydliad yn ogystal â helpu'r staff i ddeall y system Iechyd y Cyhoeddus newydd.



Pawb, y cylchgrawn chwarterol i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

5.3 Salwch

Roedd cyfradd salwch ymysg y staff ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror 2009 ac Ionawr 2010 yn 3.63%, sy'n is na tharged y sefydliad o 4.2%

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Pan gafodd ei sefydlu cafodd asedau gweithredol isadrannau perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru eu trosglwyddo o'r sefydliadau a'i rhagflaenodd. Ni throsglwyddwyd asedau o'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Dangosir yr asedau sefydlog a drosglwyddwyd isod:

	Ymddiriedolaeth GIG Felindre			Canolfan Iechyd Cymru	
	Heb eu Rhoi	Wedi eu Rhoi	Cyfanswm	Heb eu Rhoi	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Eiddo, cyfarpar ac offer					
Tir	1060	0	1060	0	1060
Adeiladau yn cynnwys anheddau	3069	229	3298	0	3298
Asedau sy'n cael eu hadeiladu a thaliadau ar gyfrif	-14	0	-14	0	-14
Cyfarpar a Pheiriannau	2162	134	2296	0	2296
Offer cludiant	10	0	10	0	10
Technoleg Gwybodaeth	1085	0	1085	2	1087
Dodrefn a Ffitiadau	296	0	296	11	307
Cyfanswm	7667	363	8030	13	8043

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Cafodd yr asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd o Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Chanolfan Iechyd Cymru eu harchwilio'n llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Parhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â gwaith da y sefydliadau a'i rhagflaenodd gan gyrraedd pob un o'r tri tharged ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Amlinellir y targedau hyn, ynghyd â pherfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu herbyn, isod:

Mantoli'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn

Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru warged o £18,000 yn 2009-10.

Aros o fewn yr Uchafswm Cyllido Allanol (EFL) o £1,295,000 a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Ni fuddsoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fwy na'r uchafswm a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn offer ac asedau newydd.

Talu credydwyr

Mae gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru dalu 95 y cant o filiau nad ydynt yn filiau'r GIG o fewn 30 niwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag sydd hwyrach). Cyflawnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y canlynol:

	2009/10
Cyfanswm y biliau nad oeddent yn filiau'r GIG a dalwyd yn 2008-09	21,581
Cyfanswm y biliau nad oeddent yn filiau'r GIG a dalwyd o fewn y targed	20,837
Canran y biliau nad oeddent yn filiau'r GIG a dalwyd o fewn y targed	96.6%

O 1 Hydref 2009 mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithredu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre drwy system cyfriflyfr sengl. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli perfformiad ar gyfer y chwe mis pan oedd y sefydliad yn sefydliad cyfun, fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Datganiadau Ariannol Cryno a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am berfformiad ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae manylion llawn ar gael yn y Cyfrifon Blynyddol llawn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ac maent ar gael gan Keith Cox, Ysgrifennydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (gweler Pennod 9).

Mae'r cyfrifon llawn hefyd yn cynnwys Datganiad ar Reolaeth Fewnol sy'n ddatganiad a ysgrifennir ac a lofnodir gan y Prif Weithredwr ar y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg sydd wedi cael eu sefydlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd y Cyfrifon eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyfanswm y ffioedd archwilio, fel y nodir yn y cyfrifon, oedd £155,000.

Yn yr amser a oedd ar gael i sefydlu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac, o ganlyniad i benderfyniad Ymddiriedolaeth GIG Felindre i newid i system ariannol Oracle a'r newidiadau i system fancio'r llywodraeth, nid oedd yn ymarferol sefydlu cyfrif banc a system gyfriflyfr ar wahân.

Mae nifer o wasanaethau cymorth corfforaethol yn cael eu darparu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth cymorth corfforaethol gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a pharhad y gwaith rheoli drwy gydol y cyfnod hwn gan gyfyngu'r risgiau yn sgîl y trefniant hwn. Dan egwyddorion Creu'r Cysylltiadau mae rhannu gwasanaethau cymorth yn arwain at arbedion ariannol i'r ddau sefydliad.

Mae cynnwys y ddau sefydliad o fewn un cyfrif banc yn gryn her i'r ddau sefydliad. Fodd bynnag, o gofio'r parhad yn sgîl y ffaith bod staff yn

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

aros yn eu swyddogaethau presennol a'r ffaith bod gwasanaethau'n cael eu darparu drwy Gytundeb lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth cymorth corfforaethol cafwyd parhad o ran rheoli drwy gydol y cyfnod a gyfyngodd ar y risgiau yn sgîl y trefniant hwn. Yn ogystal cyflwynwyd rheolaethau ychwanegol mewn perthynas â masnachu rhwng y sefydliadau a gefnogodd y gwahanu cyhyd ag y bo modd o fewn y trefniadau a oedd ar waith.

O ganlyniad i'r ffaith mai dim ond un cyfrif banc ac un llyfr arian a gadwyd ni fu'n bosibl sicrhau nad oes croes-sybsideiddio'n digwydd rhwng diwedd a dechrau pob mis, fodd bynnag, ar ddiwedd pob mis ers 1af Hydref 2009 roedd gan y ddau sefydliad asedau arian parod ar eu mantolen.

Pan gafodd ei sefydlu cafodd asedau gweithredol isadrannau perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru eu trosglwyddo o'r sefydliadau a'i rhagflaenodd. Ni throsglwyddwyd asedau o'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid (CARIS). Dangosir yr asedau sefydlog a drosglwyddwyd isod:

	Ffactor Swyddi Gwag	Swyddi Gwag dros dro	Targed arbedion
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Diogelu Iechyd	350	402	350
Iechyd y Cyhoedd Cyffredinol	450	1,018	380
Sgrinio	100	226	470
Former Wales Centre for Health	0	151	0
Canolfan Iechyd Cymru Gynt	900	1,797	1,200

Mae hyn yn parhau i fod yn gryn her ond mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyderus y gellir cyflawni hyn wrth iddo gynllunio ar gyfer yr heriau yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol.

6.1 Creu'r Cysylltiadau

Mae cydweithio gydag asiantaethau eraill i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd yn rhan annatod o waith Iechyd y Cyhoedd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd cydweithio o ddifrif ac mae'n gweithio'n agos gyda byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol ymysg eraill. Mae'r sefydliad hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith Cymru gyfan ar rannu gwasanaethau ac mae gennym Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i rannu cyfran sylweddol o wasanaethau cymorth corfforaethol.

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

6.2 Crynodeb o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y cyfnod chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu'r datganiadau ariannol ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2009 a 31 Mawrth 2010.

Datganiad o incwm a gwariant ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010	
	1 Hyd 2009 hyd 31 Mawrth 2010
	£000
Refeniw o weithgareddau gofal cleifion	26,922
Refeniw gweithredu arall	14,631
Treuliau gweithredu	(41,417)
Gwarged/ (diffyg) gweithredu	136
Refeniw buddsoddi	3
Enillion a cholledion eraill	0
Costau cyllid	(1)
Gwarged/(diffyg)	138
Difidend sy'n daladwy ar Gyfalaf Difidend Cyhoeddus	(120)
Gwarged/ (diffyg) a gadwyd	18

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2010

	31 Mawrth 2010	1 Hydref 2009
	£000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol		
Eiddo, cyfarpar ac offer	8,576	8,057
Asedau anniriaethol	0	0
Derbyniadau masnach a derbyniadau eraill	0	0
Asedau ariannol eraill	0	0
Asedau eraill	0	0
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol	8,576	8,057
Asedau cyfredol		
Stocrestrau	460	431
Derbyniadau masnach a derbyniadau eraill	5,416	6,055
Asedau ariannol eraill	0	0
Asedau eraill	0	0
Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod	2,466	519
	8,342	7,005
Asedau nad ydynt yn gyfredol a gedwir i'w gwerthu	0	0
Cyfanswm yr asedau cyfredol	8,342	7,005
Cyfanswm yr asedau	16,918	15,062
Rhwymedigaethau presennol		
Taliadau masnach a thaliadau eraill	(7,298)	(6,398)
Benthyciadau	0	0
Rhwymedigaethau ariannol eraill	0	0
Darpariaethau	(544)	(165)
Rhwymedigaethau eraill	0	0
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol	(7,842)	(6,563)
Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net	500	442
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol	9,076	8,499
Rhwymedigaethau nad ydynt yn rhwymedigaethau cyfredol		
Taliadau masnach a thaliadau eraill	0	0
Benthyciadau	0	0
Rhwymedigaethau ariannol eraill	0	0
Darpariaethau	(585)	(647)
Rhwymedigaethau eraill	0	0
Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn rhwymedigaethau cyfredol	(585)	(647)
Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd	8,491	7,852
Ariannwyd gan: Ecwiti trethdalwyr		
Cyfalaf difidend cyhoeddus	8,141	7,489
Enillion a gadwyd	18	0
Cronfa adbriso	0	0
Cronfa asedau a roddwyd	332	363
Cronfa grant y Llywodraeth	0	0
Cronfeydd eraill	0	0
Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr	8,491	7,852

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Datganiad ar newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr							
	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus	Enillion a gadwyd	Cronfa adbriso	Cronfa asedau a roddwyd	Cronfa grantiau'r Llywodraeth	Cronfeydd eraill	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Hydref 2009	7,489	0	0	363	0	0	7,852
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr							
Enillion/(colledion) net ar adbriso eiddo, cyfarpar ac offer		0	0	0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar adbriso asedau anniriaethol		0	0	0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar adbriso asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		0	0	0	0	0	0
Derbyn/(gwaredu) asedau wedi'u rhoi/ asedau grant y llywodraeth		0	0	0	0	0	0
Rhyddhau cronfeydd i'r datganiad incwm		0	0	(31)	0	0	(31)
Symudiadau ar gronfeydd eraill (noder)		0	0	0	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		0	0	0	0	0	0
Gwarged/(diffyg) a gadwyd ar gyfer y flwyddyn		18	0	0	0	0	18
Cronfeydd a ddilëwyd ar adeg diddymu		0	0	0	0	0	0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd	652				0	0	652
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad- dalwyd yn ystod y flwyddyn	0						0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddiddymwyd/ddilëwyd	0						0
Symudiadau eraill mewn CDC yn ystod y flwyddyn	0						0
Balans ar 31 Mawrth 2010	8,141	18	0	332	0	0	8,491

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Datganiad o lif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010	
1 Hydref 2009 hyd 31 Mawrth 2010	£000
Llif arian o weithgareddau gweithredu	
Gwarged/(diffyg) gweithredu	136
Dibrisiad ac amorteiddio	619
Amhariadau a gwyrdroadau	0
Rhyddhau credydau PFI wedi'u gohirio	0
Trosglwyddiadau o'r gronfa asedau a roddwyd	(31)
Trosglwyddiadau o gronfa grantiau'r llywodraeth	0
Llog a dalwyd	0
Difidend a dalwyd	0
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau	(29)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn derbyniadau masnach a derbyniadau eraill	639
(Cynnydd)/gostyngiad mewn asedau cyfredol eraill	0
Cynnydd/(gostyngiad) mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	785
Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau cyfredol eraill	0
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	317
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol	2,436
Llif arian o weithgareddau buddsoddi	
Llog a dderbyniwyd	3
(Taliadau) ar gyfer eiddo, cyfarpar ac offer	(1,144)
Elw o waredu eiddo, cyfarpar ac offer	0
(Taliadau) ar gyfer asedau anniriaethol	0
Elw o waredu asedau anniriaethol	0
(Taliadau) ar gyfer buddsoddiadau gyda Llywodraeth y Cynulliad	0
(Taliadau) ar gyfer asedau ariannol.	0
Elw o waredu buddsoddiadau gyda Llywodraeth y Cynulliad	0
Elw o waredu asedau ariannol.	0
Elw o rent	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(1,141)

6. Adolygiad gweithredol ac ariannol

Datganiad o lif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010	
	1 Hydref 2009 hyd 31 Mawrth 2010
	£000
All-lif /(mewnlif) net cyn cyllido	1,295
Llif arian parod o weithgareddau cyllido	
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a dderbyniwyd	652
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd	0
Benthyciadau a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad	0
Benthyciadau eraill	0
Benthyciadau a ad-dalwyd i Lywodraeth y Cynulliad	0
Benthyciadau eraill a ad-dalwyd	0
Derbyniadau cyfalaf eraill	0
Elfennau cyfalaf prydlesu cyllid a mantolen PFI	0
Arian parod a drosglwyddwyd (i)/o gyrff eraill GIG Cymru	0
Mewnlif /(all-lif) arian parod net o weithgareddau cyllido	652
Cynnydd /(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod	1,947
Arian parod [a'r] hyn sy'n gyfystyr ag arian parod [a gorddrafftau banc] ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	519
Arian parod [a'r] hyn sy'n gyfystyr ag arian parod [a gorddrafftau banc] ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	2,466

7. Adroddiad Tâl

Ar 31 Mawrth 2010, y Prif Weithredwr oedd yr unig Gyfarwyddwr Gweithredol i gael ei benodi'n barhaol. Pennwyd cyflog a thermau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chynhaliwyd y broses recriwtio gan Lywodraeth y Cynulliad ar ran lechyd Cyhoeddus Cymru. Pwyllgor Tâl lechyd Cyhoeddus Cymru a bennodd ac a fydd yn pennu'r tâl ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol dilynol ac uwch reolwyr allweddol eraill. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys yr Aelodau canlynol o'r Bwrdd:

Cadeirydd y Pwyllgor Tâl:

Yr Athro Syr Mansel Aylward CB

Aelodau:

Dr Carl Clowes

Dr Jo Farrar

Mr Jonathon Spence

Yr Athro Simon Smail CBE

Yr Athro Gareth Williams

Yn 2009/2010, ni chafodd unrhyw gynnydd "costau byw" ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog a bydd y sefyllfa honno'n parhau yn y dyfodol. Nid ydynt wedi cael unrhyw gynnydd ychwanegol yn eu tâl.

Caiff perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol lechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, nid yw tâl yn uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad.

Mae codiadau cyflog yn adlewyrchu gofynion llythyr blynyddol Prif Weithredwr GIG Cymru ar y mater hwn. Mae'r trefniadau ar gyfer tâl Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer y dyfodol yn parhau i gael ei ystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl yn asesu perfformiad y sefydliad a'r unigolion yn erbyn yr amcanion wrth asesu codiadau cyflog.

Mae pob codiad cyflog ac unrhyw godiad cyflog yn amodol ar berfformiad. Gwneir pob taliad yn unol â'r amlen gyflog sydd yn y llythyr blynyddol gan Brif Weithredwr GIG Cymru ar y mater hwn.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yr opsiwn o brydlesu car dan dermau cytundeb prydlesu ceir lechyd Cyhoeddus Cymru, ond nid yw'n cynnwys yr angen i deithio'r milltiroedd busnes sylfaenol bob blwyddyn.

Nid oes unrhyw iawndal yn cael ei dalu i gyn uwch reolwyr. Yn ogystal, o ran y symiau a gynhwysir uchod sy'n daladwy i drydydd partion am wasanaethau uwch reolwyr, nid oes symiau o'r fath yn cael eu talu.

7.1 Datganiad ar Gydymffurfio â Chyflogau Rheolwyr y GIG

Yn unol â'r llythyr gan Brif Weithredwr GIG Cymru, cadarnheir nad yw'r codiadau cyflog ar gyfer uwch reolwyr wedi mynd y tu hwnt i 1.5 y cant o fil cyflogau'r rheolwyr.

7.2 Taliadau Yswiriant Indemniad Proffesiynol

Nid yw lechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud unrhyw daliadau ar gyfer Yswiriant Indemniad Proffesiynol rhwng 1 Hydref 2009 a 31 Mawrth 2010 ac nid oes ganddo gynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol.

7.3 Bargeinio'n Lleol ar Gyflogau

Ni chafwyd unrhyw fentrau yn y maes hwn yn ystod y cyfnod ac, oherwydd bod y rhaglen Agenda ar gyfer Newid yn parhau i gael ei gweithredu, nid oes mentrau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

7. Adroddiad Tâl

Roedd tâl y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf (Cynghorydd Proffesiynol i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2009 a 31 Mawrth 2010 fel a ganlyn:

	Cadeirydd	Prif Weithredwr	Cynghorydd Proffesiynol i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr
	£000	£000	£000
Cyflog sylfaenol ar gyfer y cyfnod	22	77	87
Buddiannau ar gyfer y cyfnod	0	1	1
Bonws ar sail perfformiad ar gyfer y cyfnod	0	0	0
Is-gyfanswm ar gyfer y cyfnod	22	78	88
Cyfraniadau pensiwn ar gyfer y cyfnod	0	0	0
Cyfanswm ar gyfer y cyfnod	22	78	88

7. Adroddiad Tâl

7.4 Hawliau cyflog a phensiwn uwch gyflogeion

	Cyflog Blynyddol	Cyflog a dalwyd ar gyfer y cyfnod	Tâl arall ar gyfer y cyfnod	Buddiannau mewn nwyddau ar gyfer y cyfnod
	Bandiau 5k	Bandiau 5k	Bandiau 5k	Wedi'i dalgrynnu i
	£'000	£'000	£'000	£100
Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Staff Allweddol				
Mr Bob Hudson, Prif Weithredwr	140 - 145	75 - 80	0	8
Mr Steve Ham, ¹ Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (O 26ain Hydref 2009)	Gweler y nodyn isod			
Mr Keith Cox, ² Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Corfforaethol	75 - 80	35 - 40	0	2
Mr Mark Dickinson, ³ Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu Gwasanaethau Dros Dro	75 - 80	35 - 40	0	3
Mr Chris Lines, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	70 - 75	35 - 40	0	2
Dr Cerilan Rogers, ⁴ Cynghorydd Proffesiynol i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd	170 - 175	85 - 90	0	12
Ms Karen Wright, ⁵ gweler y nodyn isod	60 - 65	30 - 35	0	1
Cyfarwyddwr Anweithredol				
Yr Athro Syr Mansel Aylward, Cadeirydd	40 - 45	20 - 25	0	0
Dr Carl Clowes	5 - 10	0 - 5	0	0
Dr Jo Farrar	0 - 5	0 - 5	0	0
Yr Athro Simon Smail	5 - 10	0 - 5	0	0
Mr Jonathon Spence	5 - 10	0 - 5	0	0
Mr Gareth Williams	0 - 5	0 - 5	0	0

1. Penodwyd Mr Steve Ham fel Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro Ymddiriedolaeth GIG Felindre o 26 Hydref 2009 ar secondiad o Blll Aneurin Bevan. Rhoddodd Mr Steve Ham gyngor a chymorth ariannol i lechyd Cyhoeddus Cymru tan 30 Ebrill 2010, yn absenoldeb Cyfarwyddwr Cyllid. Yn ystod y cyfnod hwnnw, codwyd tâl ar lechyd Cyhoeddus Cymru am wasanaethau Cyfarwyddwr Cyllid Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth am Wasanaethau Cymorth Corfforaethol sydd ganddo gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, cafodd swm o £14,199 ei gynnwys yn y swm a godwyd a oedd yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Mr S Ham.

Penodwyd Mr Huw George yn Gyfarwyddwr Cyllid o 1 Mai 2010 ymlaen.

2. Penodwyd Mr Keith Cox yn Ysgrifennydd y Bwrdd ar Ebrill 6 2010

3. Penodwyd Mr Mark Dickinson yn Gyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu Gwasanaethau ar 6 Ebrill 2010

4. Daeth Dr Cerilan Rogers â'i rôl gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i ben ar 11 Mehefin 2010

5. Darparwyd cyngor adnoddau dynol ar lefel uwch i lechyd Cyhoeddus Cymru drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre tan 30 Tachwedd 2009. O 1 Rhagfyr 2009, cafodd Ms Karen Wright, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol o Ymddiriedolaeth GIG Felindre secondiad i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Penodwyd Ms Hilary Fielder yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau lechyd y Cyhoedd ar 21 Mehefin 2010

Mae'r swydd Cyfarwyddwr Datblygu lechyd y Cyhoedd yn parhau i fod yn wag ar hyn o bryd.

Mae'r swydd Cyfarwyddwr Anweithredol - Cynrychiolydd Undeb Llafur yn parhau i fod yn wag hefyd.

7. Adroddiad Tâl

7.5 Buddiannau Pensiwn

Enw a Theitl	Cyfanswm y pensiwn croniedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2010 (bandiau o £5,000)	Cyfundaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â'r pensiwn croniedig ar 31 Mawrth 2010 (bandiau o £5,000)	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2010	Cyfraniad y cyflogwr i pensiwn rhanddeiliad
	£000	£000	£000	£000
Mr Bob Hudson, Prif Weithredwr	0 - 5	0 - 5	18	0
Ms Karen Wright, Cyfarwyddwr Cyswllt y Gweithlu a DS	5 - 10	25 - 30	139	0
Mr Mark Dickinson, Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Datblygu Gwasanaethau	20 - 25	60 - 65	317	0
Mr Keith Cox, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	30 - 35	95 - 100	675	0
Mr Chris Lines, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	0 - 5	10 - 15	83	0
Dr Cerilan Rogers, Cynghorydd Proffesiynol i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd	55 - 60	175 - 180	1294	0

Mae Mr Steve Ham, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar secondiad i Ymddiriedolaeth GIG Felindre o BILL Aneurin Bevan. Y sefydliad sy'n ei gyflogi sy'n gyfrifol am weinyddu manylion ei pensiwn.

Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael tâl pensïynadwy. Felly, ni chaiff cofnodion ar bensiynau Cyfarwyddwyr Anweithredol eu cynnwys.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf y buddiannau pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol, wedi'u hasesu gan actiwari. Y buddiannau sy'n cael eu priso yw buddiannau croniedig yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i w'r r/gwraig sy'n daladwy dan y cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau CETV a'r manylion eraill am y pensiynau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadrann Actiwariaid.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV - y cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn croniedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datganiad Sicrwydd

Cadarnhaf nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni. Mae'n rhaid i mi gymryd pob cam fel prif weithredwr i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



Bob Hudson
Swyddog Cyfrifyddu, Iechyd Cyhoeddus Cymru

8. Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dudalennau 12 i 23.

Priod gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r archwilydd

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw rhoi adroddiad ar fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol statudol a'r adroddiad tâl. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol cryno.

Sail y farn

Gwneuthum fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'The auditor's statement on the summary financial statements' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Y farn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol ac adroddiad tâl Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 yr wyf wedi cyhoeddi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiadau y llofnodais fy adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn (20 Gorffennaf 2010) a dyddiad y datganiad hwn.

Gillian Body
Archwilydd
Cyffredinol Cymru
14eg Medi 2010

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Ffordd yr Eglwys
Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ

9. Cysylltiadau

Os hoffech gopïau ychwanegol o'r ddogfen hon neu os hoffech ei chael mewn fformat arall, fel sain, print mawr neu Braille, cysylltwch â:

Keith Cox

Ysgrifennydd y Bwrdd

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2022 7744 Ffacs: 029 2022 6749 e-bost: general.enquiries@wales.nhs.uk

www.iechydcyhoedduscymru.org www.publichealthwales.org



Mixed Sources
Product group from well-managed
forests, controlled sources and
recycled wood or fibre
Cert no. SGS-COC-006089
www.fsc.org
© 1996 Forest Stewardship Council